
# LLINYN ARIAN
## Cylchgrawn Capel Salem,  Caernarfon
## NADOLIG  2022








*Addurnir Capel Salem gan  ein gofalwraig    Bethan Parry  bob Nadolig. Dymuniad Bethan oedd gwneud eleni eto er ei bod newydd gychwyn  ar driniaeth yn yr Ysbyty. Gwerthfawrogwn ei hysbryd parod a dymunwn iddi hi a'i theulu bob tangefedd dros yr Wyl*

## Gair gan y Gweinidog



Ymwelais â chanolfan arddio yn ddiweddar ac yn y gofod lle roedd addurniadau a goleuadau'r Nadolig clywais lais dynes yn dweud 'It is the angel that has died'. Doeddwn i ddim yn adnabod y person ond 'doedd dim anhawster deall yr hyn a olygai . Lle bynnag oedd ei chartref, dychmygais hi'n mynd i n'ol yr addurniadau Nadolig  a darganfod neu'n cofio ers y Nadolig diwethaf nad oedd yr angel yn goleuo; a'i ffordd o fynegi hyn  oedd defnyddio'r gair 'marw'.
Atgoffais fy hun o rai o eiriau'r angylion yn 'Stori Fawr  y  Ganrif
Neges yr angel i Mair: "Henffych well, tydi, yr un y rhoddodd Duw ei ffafr iddi! Y mae'r Arglwydd gyda thi" a "Paid ag ofni, Mair, oherwydd cefaist ffafr gyda Duw;
A'i eiriau i Joseff : Paid ag ofni cymryd Mair yn wraig i ti, oherwydd y mae'r hyn a genhedlwyd ynddi yn deillio o'r Ysbryd Glân.
A beth am y neges y côr o angylion i'r bugaeiliaid : "Peidiwch ag ofni, oherwydd wele, yr wyf yn cyhoeddi i chwi y newydd da am lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl: Ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd;  "Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd."



A neges arall i'r ddau: "Cod, a chymer y plentyn a'i fam gyda thi, a ffo i'r Aifft, ac aros yno hyd nes y dywedaf wrthyt, oherwydd y mae Herod yn mynd i chwilio am y plentyn er mwyn ei ladd."
Wrth i ni baratoi at yr Ŵyl unwaith eto, gall cofio geiriau'r  angylion fod yn ffordd dda i'n hatgoffa o wir ystyr y dathlu . A fydd yr angel a'r angylion yn goleuo ein haelwyd y Nadolig hwn neu a yw'r golau wedi diffodd? Ond cofiwn, er fod yr addurn heb oleuo, nid yw'n golygu nad oes goleuni yn y galon.

**Meddyliwn am ein haelodau sydd wedi COLLI PERTHNASAU**

Mrs Mair Jones, 1 Y Glyn ym marwolaeth ei hunig fab .
Mr Carwyn a Manon Owen, ym marwolaeth Nain Manon .
Mr Evan a Mrs Nan Hughes ym marwolaeth brawd i Evan.
Mrs Llinos Williams ym marwolaeth ei brawd yng nghyfraith .
Eraill yn yr eglwys sydd wedi colli ffrindiau agos a pherthnasau .

**MEDDYLIWN HEFYD AM Y RHAI A FU YN YR YSBYTY.**

Mrs Nancy Griffiths
Mr Dilwyn Hughes ,
Mrs Carys Owen,
Mrs Nia Pyrs
Mrs Kathleen Rees Hughes
Mrs Eirlys Jones,
Miss Bethan Parry
Mr Derwyn Roberts .

Danfonwn ein cyfarchion cynhesaf i'r rhai **MEWN CARTREFI PRESWYL.**
Cartref Marbryn Caernarfon : Mr Gareth Lee.
Cartef Golwg y Wyddfa, Llanberis : Mrs Gweneirys Jones.
Cartref Gwynfa, Caernarfon : Miss Nerys Jackson .
Cyflwynwn ein cyfarchion cynhesaf i chi ac i'r rhai sy'n gaeth i'w cartref .

"***Yr Arglwydd yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf.***
***Gwna i mi orwedd mewn porfeydd breision, a thywys fi gerllaw dyfroedd tawel, ac y mae yn fy adfywio.***
***Fe'm harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw.***
***Er i mi gerdded trwy ddyffryn tywyll du, nid ofnaf unrhyw niwed, oherwydd yr wyt ti gyda mi ....Salm 23***

## BEDYDD



Yng ngwasanaeth bore Sul Diolchgar-wch , 16 Hydref bedyddiwyd Esyllt Wyn, merch Gwen-no a Guto Wyn, chwaer i Emrys a Owain,Llys Gwyn, Caernarfon . Bore arbennig yn hanes y teulu a'r eglwys eglwys.




**GAIR Y DYDD.**




Deunydd defosiwn dyddiol a gaiff ei gyhoeddi bedair gwaith y flwyddyn yw Gair y Dydd. Cyhoeddir gan Bwyllgor Darlleniadau Beiblaidd ar ran Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr Eglwys Gatholig Rufeinig, yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys yng Nghymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Diolch i Veira Owen am fod yn gyfrifol i'w ddosbarthu . Os dymunwch archebu copi rhowch wybod i Veira ar y cyfle cyntaf os gwelwch yn dda .Cost unigol yw £3 ( tri mis) neu £10.00 y flwyddyn i'w dalu ymlaen llaw i drysorydd y capel. Yr un yw'r gwahoddiad gyda chylchgronnau eraill; CRISTION a'r TYST. Pris Y TYST yw 50c yr wythnos a Cristion ( bob daufis) yn £2.00

## HAFAN ( Prosiect Cyngor Egwlysi Caernarfon )




Bydd Capel y Maes ar agor bob dydd Mawrth 12-3. Mae cyfle i unrhyw un alw mewn am sgwrs, cwmni, tawelwch/goleuo cannwyll. Os ydych am wirfoddoli efo Hafan, cysylltwch efo Mererid.

**CYFARCHION NADOLIG**



**Dymuna deulu'r Gweinidogion Ron a Rhian, Mererid, Richard, Gwydion a Llywelyn, Heddwen, Aron, Seren, Deian ag Owain, bob tangefedd i chwi dros yr Wyl a blwyddyn newydd dda.**

**SAFWE CAPEL SALEM**
**Www.capelsalemcaernarfon.com**

## ADRODDIAD 2021 .

Ymddiheuriadau fod yr Adroddiad yn hwyrach nag arfer yn cyrraedd . ‘Roedd nifer o resymau tu allan i’n rheolaeth yn gyfrifol am hynny. Os nad yw wedi eich cyrraedd rhowch wybod. Ymddiheurwn am unrhyw gamgymeriad sydd yno .Sicrhawn nad oeddent yn fwriadol .

**CYFRANIADAU ARIANNOL.**

Erbyn hyn mae pawb wedi cael taflen gwybodaeth cyfraniadau hyd at ddiwedd **Blwyddyn 2021 .** Derbyniwyd taflen gwybodath **cyfraniadau hyd ddiwedd 2022.** Ymddiheuriadau am unrhyw gamgymeriad. Dalier sylw ar y geiriau : ‘Os bydd gennych sylw ynghlyn a chywirdeb eich cyfraniadau, cysylltwch a thrysorydd yr eglwys: Mr Alun Jones. Os ydych am gyfrannu at y capel, gellir gwneud hyn drwy: 1. drosglwyddiad banc gan ddefnyddio’r manylion :

**Côd y Banc ; 40-16-02 , Rhif y cyfrif i’w dalu- 70724556.**

Cofiwch roi enw a rhif aelodaeth fel cyfeirnod os gwelwch yn dda .
2. Danfon siec /amlen i'r trysorydd: Mr Alun Jones, Gwyddfan, 22 Llys Meirion, Caernarfon, LL55 1LE yn dyladwy i : **CAPEL SALEM CAERNARFON**. 3 Amlen melyn yn y casgliad ar y Sul. Diolch yn fawr

Dalier sylw ;
***bod llyfrau cyfrifon yr eglwys yn cau Sul ola’r flwyddyn 25 Rhagfyr 2022 . Cofiwch :**
* am yr anogaeth i gyfrannu trwy gyfrwng debyd uniongyrchol.
* am y gwahoddiad i bob aelod geisio ychwanegu 10% at eu cyfraniad blynddol.
*am yr ymgyrch i ddenu cyfamodwyr newydd. Drwy Gyfamodi ( Gift Aid) cawn 25c am bob £1, ar yr amod eich bod yn talu Treth Incwm. Gwneir hyn drwy arwyddo ffurflen berthnasol



***Daeth Crist i’n plith , O llawenhawn, a deued pawb ynghyd i’w dderbyn a’i gydnabod ef yn Geidwad i’r holl fyd’***



**Rhodd o gariad y Nadolig hwn.**

**Apel Nadolig Cymorth Cristnogol 2022.**

Un o’r pleserau mwyaf dros Wyl y Nadolig yw eistedd i lawr a bwyta gyda’r teulu. Felly hefyd yn Malawi. Yng nghymuned Fayness mae nhw’n hoffi dawnsio ac mae’r bobl ifanc yn chwarae pel-droed.Mae nhw’n dathlu trwy fwyta cyw iar a reis.Ond eleni bydd llawer o deuluoedd Malawi yn brwydro hyd yn oed i gael uwd. Mae’n newyn oherwydd yr argyfwng hinsawdd-sychder, a chawodydd glaw dinistriol yn chwarae hafog gyda chnydau,sy’n achosi prinder bwyd.
Trwy bartner lleol Cymorth Cristnogol mae Fayness wedi derbyn hyfforddiant sydd yn helpu ei chnydau i oroesi adegau o sychder a’u maethloni yn rhad ac am ddim. Meddai Fayness, ’Rydym wedi dysgu am ddyfrhau a sut i wneud gwrtaith a’i ddefnyddio’n effeithiol . Mae budd y gwrtaith i’w weld yn y cynhaeaf corn rwyf wedi ei dyfu. Mae gen i saith o goed ffrwythau a llysiau yn tyfu yn yr ardd. Rwan dwi’n medru bwydo’r teulu. Dwi’n ddiolchgar iawn i Cymorth Cristnogol .Diolch yn fawr iawn.” Am fwy o wybodaeth, ewch,os gwelwch yn dda i :www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christmas-appeal. (Gyda diolch arbennig i Llinos Roberts, Cymorth Cristnogol)



**Calendr Adfent Cymorth Cristnogol:** Beth am fynd i weld Calendr Adfent Rhithiol Cymorth Cristnogol Iwerddon

https://www.christianaid.ie/christmas-appeal/advent-calendar

Cyn y Pandemig cynhaliwyd CINIO BARA A CHAWS BORE SUL cyn dydd Dolig. Ni threfnwyd cinio eleni –gobeithiwn y medrwn drefnu Nadolig nesaf. Er hyn gellir cyfrannu fel arfer drwy ddanfon siec /arian i drysorydd yr Ysgol Sul: Mr Iestyn Roberts, neu’n syth i Gyfri banc YSGOL SUL A IEUENCTID SALEM
Manylion : Côd y Banc i’w dalu : 51 61 28
Rhif y cyfrif 80749364

Sieciau yn dyladwy i YSGOL SUL A IEUENCTID SALEM Nodwch enw, rhif aelodaeth a rhowch y geiriau Cymorth Cristnogol.

CYMDEITHAS Y BEIBL

Gofynna Cymdeithas y Beibl i eglwysi neulltio un Sul o'r flwyddyn i feddwl am waith y Gymdeithas. Er mai Sul olaf Hydref yw'r dyddiad a nodir fel Sul y Beibl, nid oes gorfodaeth ar unrhyw eglwys gadw at y dyddiad. Yr hyn sy'n bwysig yw defnyddio oedfa neu Sul cyfan i feddwl am waith y Gymdeithas . Yn Salem ers sawl blwyddyn, rhoddir sylw i waith y Gymdeithas ar ail Sul Adfent .Os dymunwch weld deunydd y Gymdeithas ewch i'w Safwe . Fel arfer gwneir casgliad ar Suliau mis Rhagfyr . Derbynnir cyfranniadau eleni trwy dalu'n syth i gyfrif capel Salem trwy law trysorydd yr eglwys;Mr Alun Jones, Gwyddfan, 22 Llys Meirion , Caernarfon.

**Manylion y Cyfrif : CÔD BANC I'W DALU 40 16 02**
**RHIF Y CYFRIF 70724556 . Gwnewch y siec yn dyladwy i Capel Salem, Caernarfon . Cofiwch roi rhif aelodaeth a nodi : Cyfraniad Cymdeithas y Beibl neu arian mewn amlen yn yr oedfa neu siec.**

***************

**TAFLEN MAE CAPEL SALEM, CAERNARFON ANGEN CYNORTHWYWYR. A fedrwch chi roi eich gwasanaeth?**
**Yda chi wedi danfon y ffurflen nol? Os na, gofynnwn yn garedig am eich cydweithrediad.**
**O bryd i'w gilydd mae'n rhaid i bob sefydliad ystyried ei sefyllfa. Ar hyn o bryd mae Eglwys Salem yn gwneud hynny. Mae'r achos yn Salem yn bodoli ers 1862 ac yn ystod y 160 mlynnedd mae'r eglwys wedi gorfod wynebu gwahanol heriau. Un her rydym yn ei wynebu ar hyn o bryd fel nifer o eglwysi ydi lleihad mewn aelodau a chynnydd mewn costau. Yr ydym yn barod i ymateb i'r her, ond er mwyn gwneud hynny, mae angen cael darlun fwy clir o sefyllfa aelodaeth yr Eglwys . Mae perthyn i unrhyw fudiad yn golygu cefnogi, cyfrannu a chynorthwyo'r mudiad hwnnw. Mae'r un peth yn wir am berthyn i Eglwys Iesu Grist .**
**Yn ystod ei amser ar y ddaear, heriodd Iesu ei ddisgyblion i benderfynnu a oeddent am barhau i'w ddilyn neu ei adael. Ateb un oedd : '*Arglwydd, at bwy yr awn ni? Mae beth rwyt ti'n ei ddweud yn arwain i fywyd tragwyddol'. Cymrwch olwg ar y rhestr - mae'n siwr fod yna un neu ddau o weithgareddau y gallwch helpu.***



## GWEITHGAREDDAU TYMOR Y NADOLIG

SUL 11 Rhagfyr : Bore am 10 dan ofal y Gweinidog.
( Oedfa yn y Festri )
**SUL 18 Rhagfyr** : Bore am 10 yn y capel dan ofal y Gweinidog a'r aelodau
Prynhawn am 5 o'r gloch yn y capel: Cyflwyniad nadolig y plant/ ieuenctid: Syllu ar y Ser
Yn dilyn bydd Parti Nadolig y Plant yn y Festri.

**SUL 25 Rhagfyr; Dydd Nadolig** Gwasanaeth yn y festri am 9.30 o'r gloch .( Neges i'r plant: Os bydd Sion Corn wedi bod, dowch ag anrheg i ddangos)



**2023.**
**SUL 1 IONAWR** . Oedfa Gymun yn y bore am 10 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog yn y Festri

**Manylion Cysylltu drwy Zoom.**
**Mae manylion zoom oedfaon Salem yr un peth bob wythnos sef:**
**Oedfaon Salem: 899 6740 5728**
**Cyfrinair: 1588**
**Os am ymuno dros y ffôn:**
**Ffonio: 02034 815 237**
**yna deialu 899 6740 5728 #**
**yna 1588#**



**CYNGOR EGLWYSI CAERNARFON**
**CANU CAROLAU -Dydd Iau, 22 Ragfyr am 4:30 o flaen Capel y Maes.**

**Cyfarfodydd Undebol Cyngor Eglwysi Caernarfon 2022**
11 Ionawr 7 o'r gloch Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn. Capel y Pentecostaliaid, Canolfan Gwyrfai, Stad Cibyn
15 Ionawr 10:30 : Oedfa Undebol Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol yn Nghapel y Maes.
19 Chwefror 6 o'r gloch:Sul Cymdeithas gyda Sian Rees , Cymdeithas y Beibl, Caersalem